

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cytundebau Rhyngwladol

Cytundebau a ystyriwyd ar
11 Gorffennaf 2022

Gorffennaf 2022



1. Cefndir

1. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynol o 21 diwrnod.
4. Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 11 Gorffennaf 2022, gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
6. Y cytundebau a drafodwyd oedd:
 - Protocol yn Ymwneud â Diwygiad i Erthygl 56 o'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol; a'r
 - Protocol yn Ymwneud â Diwygiad i Erthygl 50(a) o'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol.
7. Cytunwyd i nodi'r ddau gytundeb er gwybodaeth yn unig. Nodir rhagor o fanylion am y cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022

2. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Protocol yn Ymwneud â Diwygiad i Erthygl 56 o'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 15 Mehefin 2022. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 20 Gorffennaf 2022.
9. Mae'r cytundeb hwn yn diwygio'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol 1944 ("y Confensiwn") i gynyddu maint Comisiwn Mordwyo Awyr y Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol ("ICAO") o 19 aelod i 21 aelod .
10. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn darparu bod ei gynnwys polisi yn ymwneud yn llawn â materion a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ynglŷn â chadarnhau'r cytundeb.
11. Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

Protocol yn Ymwneud â Diwygiad i Erthygl 50(a) o'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol

12. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 15 Mehefin 2022. Y dyddiad cau ar gyfer gwaith craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 20 Gorffennaf 2022.
13. Mae'r cytundeb hwn yn diwygio'r Confensiwn i gynyddu maint Cyngor yr ICAO o 36 aelod i 40 aelod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn darparu y bydd y newid hwn yn gwella cynrychiolaeth a chyfranogiad aelodau ICAO wrth arwain gwaith ICAO, ac yn lleihau pryderon nad yw'r Cyngor yn cynrychioli'r sbectrwm eang o aelodau ICAO.
14. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn darparu bod ei gynnwys polisi yn ymwneud yn llawn â materion a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ynglŷn â chadarnhau'r cytundeb.
15. Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

3. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

16. Wrth i ni ystyried Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Goresgyn Trais yn erbyn Menywod a Thrais yn y Cartref (a elwir hefyd yn 'Gonfensiwn Istanbwl') yn ein cyfarfod ar 6 Mehefin 2022, nodwyd y wybodaeth a ddarparwyd yn ei Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Llywodraethau datganoledig.² Cytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn ar gywirdeb y wybodaeth hon, a gwybodaeth am ei chydymffurfiaeth â'r Confensiwn.³

17. Ymatebodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'n llythyr ar ran Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog, er ei bod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i ddechrau cadarnhau'r trafodion ar gyfer y Confensiwn, mai dim ond tri diwrnod a roddwyd i Lywodraeth Cymru i adolygu'r Memorandwm Esboniadol. Esboniodd y Gweinidog ei bod wedi mynegi ei "siom ynghylch yr amserlenni byr", a'i bod "wedi codi nifer o bryderon yn ysgrifenedig i'r Gweinidog Diogelu".⁴

18. Amlinellodd y Gweinidog y pryderon a gododd mewn perthynas â pholisi a materion cyfansoddiadol. Mae meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i ni yn ymwneud â:

- cynlluniau i gyflwyno mater a gedwir yn ôl ar Erthygl 59 sy'n ymwneud â chymorth i ddiodefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n ymfudwyr;
- cynnwys paragraff 10.2 yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cwmpasu Erthyglau o fewn y Confensiwn sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a materion datganoledig: ni chytunodd Llywodraeth y DU â chais y Gweinidog i'w dileu, neu fel dewis arall, i'w swyddogion gael amser i ystyried dadansoddiad o faterion cymhwysedd, ac felly "cadwodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar gymhwysedd deddfwriaethol yn ôl."

19. Esboniodd y Gweinidog hefyd y bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn crynhoi cynnydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig o ran eu cydymffurfiaeth â'r

² [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mehefin 2022](#)

³ [Llythyr at y Prif Weinidog, 22 Mehefin 2022](#)

⁴ [Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 6 Gorffennaf 2022](#)

Confensiwn, a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu "mynd y tu hwnt" i'r safonau gofynnol sy'n ofynnol gan y Confensiwn.

20. Nododd y Pwyllgor y pryderon polisi a godwyd gan y Gweinidog, sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

21. Trafodwyd ymateb y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022.⁵ Cytunwyd i rannu'r ymateb gyda Phwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd a Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, ac ymateb i Lywodraeth Cymru i ofyn i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd sy'n peri pryder a amlinellir yn llythyr y Gweinidog.

⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022
